PWYLLGOR CRAFFU ADOLYGU POLISI A CHRAFFU PERFFORMIAD

DYDD MERCHER, 22 TACHWEDD 2023

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Williams(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Ash-Edwards, Carter, Chowdhury, Henshaw, Hinchey, Hunt a/ac Thomson |

34 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Dim wedi'u derbyn.

35 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd Chowdhury fuddiant personol yn Eitem 4 gan ei bod yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru.

36 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2023 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

37 : BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS

Dywedodd y Cadeirydd mai cyfrifoldeb statudol y Pwyllgor yw craffu trosolwg strategol ar berfformiad Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd (BGC). Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Chyfansoddiad y Cyngor yn rhoi'r pŵer i'r Pwyllgor wneud argymhellion i'r BGC mewn perthynas â'i swyddogaethau neu ei drefniadau llywodraethu a chopïo ei argymhellion i Weinidogion Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Byddai aelodau'n derbyn cyflwyniad o waith y bartneriaeth dros y flwyddyn ddiwethaf gan gynnwys ei hadolygiad o drefniadau llywodraethu.

Ar gyfer yr eitem hon, croesawodd y Cadeirydd (tystion allanol): Alun Michael, Comisiynydd Heddlu a Throseddu; Charles Janczewski, Is-gadeirydd BGC Caerdydd a Chadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Fiona Kinghorn, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. (Ac o Gyngor Caerdydd): Y Cynghorydd Huw Thomas, Cadeirydd BGC Caerdydd ac Arweinydd; Paul Orders, Prif Weithredwr; Sarah McGill, Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau; Gareth Newell, Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau.

Gwahoddwyd yr Arweinydd, fel Cadeirydd y BGC, y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ac Is-gadeirydd y BGC i wneud datganiadau agoriadol ac ar ôl hynny rhoddwyd cyflwyniad gan Swyddogion i'r Aelodau.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau.

Gofynnodd yr Aelodau am effaith pwysau cynyddol ar y galw a lleihau gwariant cyhoeddus ar weithio mewn partneriaeth. Clywodd yr aelodau am atebion llwyddiannus, fel rheoli rhyddhau cleifion i'r ysbyty gan y "fyddin binc," sydd wedi

lleihau pwysau costau uwch. Nodwyd yr angen cynyddol am atebion partneriaeth yn wyneb yr heriau hyn, ac roedd sicrwydd bod ffocws brys yn galluogi partneriaid i fynd i'r afael â materion ar y cyd a dod o hyd i atebion.

Roedd yr aelodau o'r farn bod dinasyddion yn rhanddeiliad sylweddol mewn gweithio mewn partneriaeth. Rhoddwyd sicrwydd i'r aelodau gan y pwysigrwydd a roddwyd ar ymgynghori â dinasyddion. Croesawodd y Pwyllgor y gydnabyddiaeth gyffredinol y gellid gwella ymgynghoriad cyhoeddus. Nodwyd awgrym y Comisiynydd i fynd i'r afael â gorgyffwrdd mewn ymgynghoriadau partner a chymryd ymagwedd fwy cydlynol drwy'r Bwrdd. Mynegodd y Pwyllgor ddiddordeb mewn adolygu'r canlyniadau y mae'r Bwrdd yn eu monitro ar hyn o bryd ynghylch effeithiolrwydd ymgysylltu â dinasyddion.

Awgrymodd yr aelodau werth posib ailgyflwyno partneriaethau cynllunio cymunedol, yn enwedig o ystyried yr heriau i wasanaethau cyhoeddus. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod y dull wedi bod yn cymryd llawer o adnoddau, ac yn aml roedd cyfranogiad y gymuned yn isel. Nododd yr Aelodau y gwaith ardal cydgysylltiedig ar faterion allweddol o fewn cymunedau. Fodd bynnag, roedd yr Aelodau'n teimlo y gallai fod cyfle i adfer ymgysylltiad rhwng SCCH (Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu) a Chynghorwyr lleol.

Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch effaith pwysau gwasanaethau cyhoeddus ar weithluoedd partner, yn enwedig yn y gwasanaeth iechyd. Nodwyd y pwysau a'r pwyslais sylweddol ar bwysigrwydd cefnogi staff mewn ymateb i'r heriau hyn.

Dysgodd y Pwyllgor am adroddiad y Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd ar Gynyddu Gwaith Atal, sy'n mynd i'r afael â themâu sy'n targedu annhegwch, gan gynnwys ffocws ar frechiadau plentyndod, sgrinio'r coluddyn, a bwyta'n iach. Soniodd y Comisiynydd hefyd am gydweithio ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddatblygu ymateb i ymchwil ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (PPNau), gan nodi pwyslais y Bwrdd ar atal troseddu a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd.

Nododd yr Aelodau ganmoliaeth yr Is-gadeirydd o'r Bwrdd am gynnal adolygiad llywodraethu cynhwysfawr, yn enwedig gan fynd i'r afael â'r berthynas rhwng y BGCC a'r BPRh (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol). Cydnabu'r Aelodau yr angen am adolygiad parhaus oherwydd twf cynyddol mewn strwythurau partneriaeth a chanmolwyd y broses adolygu.

Rhoddwyd sicrwydd i'r aelodau gan yr holl bartneriaid eu bod yn deall y trywydd golwg ra'n cydnabod y gwahanol leoliadau y mae'r BGCC a'r BPRh yn eu gwasanaethu.  Roedd yr Aelodau'n falch o glywed bod Adroddiad Blynyddol y BPRh bellach yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd bob blwyddyn, ac mae hyn yn ychwanegu at yr eglurder a'r cysylltiad gwell hwn rhwng y sefydliadau.

Trafododd yr Aelodau yr arbedion ariannol a gyflawnwyd drwy weithio mewn partneriaeth a nodwyd bod llawer o gamau gweithredu wedi arwain at elw ar fuddsoddiad, gyda'r buddion yn aml yn cael eu gweld drwy osgoi costau yn hytrach nag arbedion uniongyrchol yn y gyllideb.

CYTUNWYD: y byddai'r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

## 38 : CYLLIDEB 2023/24, ADRODDIAD MONITRO MIS 6

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau y byddent yn derbyn diweddariad ar gyllideb 2023/24 ar gyfer yr eitem hon. Mae’r eitem hon yn rhoi cyfle i’r Pwyllgor fonitro sefyllfa ariannol y Cyngor ym mis 6 blwyddyn ariannol 2023/24.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Chris Weaver, Aelod Cabinet - Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad; Chris Lee - Cyfarwyddwr Corfforaethol, Adnoddau ac Ian Allwood - Pennaeth Cyllid ar gyfer yr eitem hwn.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i’r Aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau.

Nododd yr Aelodau fod sefyllfa well y gyllideb refeniw ym mis 6, o'i gymharu â mis 4, wedi'i chyflawni'n bennaf trwy ddefnyddio £800,000 o gronfeydd wrth gefn yn y gronfa Wrth Gefn Gyffredinol a thanwariant Ariannu Cyfalaf o £1.5 miliwn.

Holodd yr Aelodau a yw'r sefyllfa gyllideb refeniw well wedi'i gwella'n artiffisial. Nododd yr Aelodau fod y dyfarniad cyflog wedi'i gytuno ers mis 4, gan ei ddileu fel risg, ac mae £1 miliwn yn y gyllideb wrth gefn yn parhau. Rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau fod yr adroddiad monitro wedi'i strwythuro i weithredu rheoli prydlon i leihau'r gorwariant. Dywedodd swyddogion fod cydweithio agos rhwng y tîm Cyllid a gwasanaethau, sy’n cynnwys sgyrsiau’r uwch dîm rheoli reolaidd ac adolygiadau penodol un i un gyda Chyfarwyddwyr Arweiniol. Mewn sefyllfaoedd o orwariant cyllidebol, mae cyfrifwyr yn herio ac o bosibl yn gohirio llenwi'r holl swyddi gwag mewn gwasanaethau gorwario.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad bod yr opsiwn i staff fynegi diddordeb mewn diswyddo yn parhau ar agor. Caniateir i'r Cyngor fanteisio ar unrhyw gostau cysylltiedig o fewn rheolau penodol, a bydd hyn yn cael ei archwilio fel rhan o'r gyllideb sydd i ddod. Nodwyd bod yn well gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau gynllunio'r gweithlu rhagweithiol.

Roedd yr aelodau'n poeni am orwariant y Gwasanaethau Plant. Gofynnon nhw am eglurder ar y dadansoddiad o orwario ac awgrymu cynnwys Aelodau meinciau cefn mewn trafodaethau. Dywedodd swyddogion fod sefyllfa cyllideb y Gwasanaethau Plant yn cael ei hystyried yn fater Corfforaethol ac mae tîm amlddisgyblaethol yn archwilio opsiynau buddsoddi i arbed gan wella canlyniadau i blant. Ystyrir bod angen arloesi, a chroesewir cyfraniadau gan aelodau meinciau cefn trwy Graffu.

Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau ynghylch uchelgeisiolrwydd newid gwasanaeth ac arbedion effeithlonrwydd, o ystyried lefel tangyflawni. Eglurodd swyddogion fod y tangyflawni yn cael ei gydnabod o bosibl oherwydd amseru a datblygiadau annisgwyl, fel y sefyllfa gyda Neuadd Dewi Sant. Mae gwersi'n cael eu dysgu, gan gydnabod bod arbedion drwy newid gwasanaeth yn peri risg uwch nag arbedion effeithlonrwydd. Nododd yr Aelodau fod swyddogion yn cydnabod y bydd angen i ganrannau a gyflawnir gynyddu erbyn diwedd y flwyddyn.

Roedd yr aelodau'n poeni am dderbyniadau cyfalaf isel ar £183,000 o'i gymharu â'r targed o £3 miliwn. Esboniodd swyddogion yr angen i gydbwyso'r gwaith o ddarparu derbyniadau cyfalaf yn erbyn sicrhau'r gwerthoedd gorau yn y farchnad, gan ystyried ei fod yn darged treigl 5 mlynedd.

Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau a nodi'r ymateb y gall y Cyngor ddefnyddio cronfeydd Cyfrif Refeniw Tai (CRT) i brynu asedau'r cyngor i'w hailbwrpasu. Fodd bynnag, nodwyd bod yn rhaid i'r Cyngor sicrhau bod y gwerth a delir yn gyfradd marchnad deg.

Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch sut y gallai Datganiad Hydref y Canghellor effeithio ar gynllunio cyllideb y Cyngor, yn enwedig o ystyried y strategaeth ariannu arfaethedig ar gyfer datblygiad yr Arena Dan Do. Dywedodd swyddogion eu bod yn disgwyl cyllideb heriol ar gyfer 2024/25 ac effaith bosibl newidiadau cyfraddau llog.

Gofynnodd yr Aelodau am ymateb ysgrifenedig gan swyddog adran 151 ynghylch goblygiadau Datganiad yr Hydref ar gynllunio cyllideb y Cyngor ac eglurhad o sut y gallai ffigurau twf diwygiedig yn Natganiad yr Hydref effeithio ar gyflawni prosiectau a ariennir drwy fenthyca, gan gynnwys yr Arena Dan Do.

CYTUNWYD: y byddai’r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu arsylwadau’r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

39 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim wedi’u derbyn.

40 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

13 Rhagfyr 2023, 4.30pm.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.00 pm